GWEITHGAREDD 9

Gêm chwarae rôl i grwpiau o bedwar neu fwy.
Oed 14 +

TARGED ZERO

TASG

Chwarae rôl teulu, gan drin a thrafod dewisiadau pob dydd a phenderfyniadau ffordd o fyw.
Y nod ydi cyrraedd diwedd y gêm gyda'r sgôr carbon isaf posib.

OFFER

Taflen Adnodd A – Cardiau Rôl
Taflen Adnodd B – Siart Pwyntiau Carbon
Taflen Adnodd C – Cam 1 a 2
Taflen Adnodd CH – Cam 3 a 4
Taflen Adnodd D – Cardiau Problem
Taflen Adnodd DD – Bwrdd Chwarae

GWEITHGAREDD

Chwarae fel tîm sy'n 'deulu'. Pob aelod o'r 'teulu' i gael cerdyn rôl,
cerdyn sgôr carbon a phensil.

Mae 4 cam i'r gêm. Mae'r teulu'n derbyn cyfarwyddiadau pob cam yn ei dro ac yn trin a thrafod y dewisiadau. Yna maen nhw'n rhoi sgôr carbon i'w tîm ar sail eu penderfyniadau.

Defnyddiwch y cardiau gwybodaeth i'ch helpu i gyfrifo sgôr carbon pob aelod o'r teulu a'u cyfanswm ar gyfer pob cam.

Pe bai pob person ar y ddaear heddiw'n cael nifer cynaliadwy o 'gredydau carbon' mi fyddai hynny, yn y gêm, yn gyfwerth â 5 pwynt carbon y person bob dydd.

MAE'R TEULU FELLY'N CAEL 20 PWYNT AR GYFER POB UN O'R CAMAU.

OS EWCH CHI DROS 20 PWYNT MAE'N RHAID CYMRYD CERDYN PROBLEM I'W DDATRYS.

Ydi pawb yn y teulu i gael 5 pwynt? Dewiswch chi. Efallai y gallwch chi gyfnewid siocled neu waith tŷ am bwyntiau carbon.

Y teulu cyntaf i gyrraedd diwedd y gêm neu i gyrraedd bellaf o fewn amser penodol sy'n ennill. Ar ddiwedd pob cam mae yna gyfle i'r timau sôn, yn eu rôl, am eu dewisiadau .

Taflen Adnodd A
Gweithgaredd 9

TARGED ZERO Cardiau Rôl

Enw: Iwan

Rôl: Tad 44 mlwydd oed

**Gweithio'n llawn amser.
Taith i'r gwaith 4.5 milltir.**

**Yn mwynhau hwylio a
gofalu am ei gwch 32 tr.
Taith i'r cwch 1.5 milltir.**

**Gwendidau: teclynnau,
gêr hwylio a bwyta allan.**

Enw: Sarah

Rôl: Mam 42 mlwydd oed

**Gweithio'n llawn amser -
3 diwrnod o'r cartref a 2
ddiwrnod yng Nghaerdydd,
sy'n 30 milltir i ffwrdd.
Yn mwynhau unrhyw gyfle i
ymlacio oddi wrth bwysau'r
teulu.**

**Gwendidau: siocled,
catalogau dillad, bwyta
allan.**

Enw: Richard

**Rôl: Mab 17 mlwydd oed
Yn yr ysgol llawn amser.**

**Mae'r ysgol a'r dref 1.5
milltir i ffwrdd.**

**Yn mwynhau bod efo'i
ffrindiau, hwylio,
hwylfyrddio. Yn dysgu gyrru.**

**Gwendidau: cerddoriaeth,
gêr hwylio, bwyd parod**

Enw: Emma

**Rôl: Merch 15 mlwydd oed
Yn yr ysgol llawn amser**

**Mae'r ysgol a'r dref 1.5
Milltir i ffwrdd.**

**Yn mwynhau bod efo'i
ffrindiau, partïon ac
anifeiliaid anwes.**

**Gwendidau: cerddoriaeth,
dillad, cyfwisg
(accessories) a siocled.**

Taflen adnodd B
Gweithgaredd 9

TARGED ZERO Siart pwyntiau

Cost Carbon teithiau a thasgau'r cartre			
Taith	Cost Carbon	Tasg cartref	Cost Carbon
3 milltir yn y car	1	1 diwrnod o wresogi a choginio gyda nwy	4
10 milltir ar y bws neu'r trên	1	1 diwrnod o drydan heb gynnwys sychwr dillad	4
1 milltir o hedfan	1	60 munud o sychwr dillad	1
1 awr o injan cwch	1		

Enw:	**Pwyntiau Carbon**			
Gweithgaredd	**Cam 1**	**Cam 2**	**Cam 3**	**Cam 4**
Cyfanswm y sgôr carbon ar gyfer pob cam				
Cyfanswm terfynol				

Taflen adnodd C
Gweithgaredd 9

TARGED ZERO - Camau 1 a 2

Cam 1: DYDD IAU – Cynlluniwch ddiwrnod cyffredin heb wario mwy nac 20 credyd carbon.

Mae'r teulu'n byw mewn tŷ pâr sydd â phedair llofft, yr offer trydanol arferol a gwres canolog nwy. Mae gan y teulu 2 gar. Mae Peter yn teithio 9 milltir yn ôl ac ymlaen i'w waith. Mae Richard ac Emma yn teithio 1.5 milltir i'w hysgol yn y dref. Mae Sarah yn gweithio yng Nghaerdydd heddiw ac fe all deithio yno mewn car neu drên. Ar ôl ysgol, mae Richard am dreulio amser yn y dref ac mae Emma am fynd i dŷ ffrind sy'n byw'n weddol agos.
Cyfrifwch eich sgôr carbon, yn unigol ac fel teulu.

Cam 2 : NOS IAU – A rŵan, cynlluniwch yr hwyr.

Pan ddaw Sarah adref mae hi'n gweld nad oes neb wedi gwneud bwyd ac mae hi eisiau i rywun yrru milltir a hanner i gael pryd parod da. Mae Emma'n sylwi bod arni angen dillad ar gyfer y penwythnos – mae angen felly rhoi'r sychwr dillad i redeg am awr. Mae Richard eisiau ymarfer gyrru'r car i'r dref ac yn ôl, cyn ei wers brynhawn ddydd Gwener. Mae Peter eisiau gyrru i'r siop DIY (milltir i ffwrdd) i gael ffitiadau i osod panel solar y mae newydd ei brynu.
Penderfynwch beth i'w wneud, fel teulu, gan greu sgôr carbon sydd mor isel â phosib.

Taflen adnodd Ch Gweithgaredd 9

TARGED ZERO Camau 3 a 4

Cam 3 DYDD GWENER – Cynllunio'r diwrnod wedyn

Mae'n ddydd Gwener. Mae Peter yn mynd i'w waith. Mae Sarah yn gweithio o'r cartref heddiw. Mae Richard ac Emma'n mynd i'r ysgol. Mae Richard yn bwriadu mynd i'r dref gyda'r nos gyda'i ffrindiau. Mae Emma wedi cael gwahoddiad i fynd i'r sinema. Mae Peter eisiau gyrru 5 milltir at y cwch i edrych dros ei syniadau ar gyfer y panel solar cyn y penwythnos. Mae Sarah eisiau mynd allan i fwyty newydd y soniodd ffrind wrthi amdano – mae hwnnw 5 milltir i ffwrdd.

Cyfrifwch eich sgôr carbon, yn unigol ac fel teulu ar sail yr hyn y bu i chi gytuno.

Cam 4 DYDD SADWRN – Cynllunio diwrnod penwythnos.

Mae'n ddydd Sadwrn. Mae Peter eisiau i'r teulu fynd allan ar y cwch am y diwrnod. Mae Sarah yn bwriadu siopa yn yr archfarchnad (3 milltir i ffwrdd) cyn cychwyn am y cwch am roi tyweli yn y sychwr am awr. Mae Emma wedi trefnu i gyfarfod ffrindiau yn y dref. Mae Richard yn ei wely ond yn bwriadu codi mewn pryd i fynd ar y cwch.

Cyfrifwch eich sgôr carbon, yn unigol ac fel teulu ar sail yr hyn y bu i chi gytuno.

Taflen adnodd D
Gweithgaredd 9

TARGED ZERO Cardiau Problem

Mae'r gwasanaeth bws i'r dref wedi dod i ben oherwydd bod dim digon o bobl yn ei ddefnyddio. Sut mae hyn yn effeithio ar eich sgôr carbon am y dydd?	Cafodd Emma wahoddiad i ddathlu pen-blwydd un o'i ffrindiau yn 16 oed yng Nghaerdydd. Mae hyn yn golygu taith o 60 milltir. Ydi hi'n cael mynd?
Mae'r cyngor lleol am leihau CO_2 o geir sy'n danfon plant i'r ysgol. Bellach chaiff neb sy'n byw o fewn 1.5 milltir i'r ysgol ddefnyddio'i gar fel tacsi ysgol. Sut effaith mae hyn yn ei gael ar eich sgôr carbon?	Mae Peter wedi gadael goriadau'r cwch yn y gegin. Mae eu nôl nhw'n golygu taith car ychwanegol, beth ydych chi'n ei benderfynu?
Rydych chi allan ar y cwch ac mae'r gwynt yn peidio. Bydd hwylio'n ôl efo'r injan yn cymryd 3 awr. Sut effaith mae hyn yn ei gael ar eich sgôr carbon?	Gofynnwyd i Sarah wneud diwrnod ychwanegol o waith yng Nghaerdydd. Ydi hi'n cytuno? Sut y bydd hi'n teithio?
Does dim digon o danwydd ar gyfer injan allanol y cwch. Mae gyrru i'r orsaf betrol agosaf yn golygu taith ychwanegol o 6 milltir. Sut mae hyn yn effeithio'ch sgôr carbon?	Enillodd y teulu wyliau syrpreis penwythnos yn Amsterdam – taith o 350 milltir . Ydych chi'n mynd? Os ydych chi, ydych chi am hedfan neu yrru? Beth am eich sgôr carbon?

Taflen adnodd Dd Gweithgaredd 9

TARGED ZERO Bwrdd Chwarae